Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB22
Ymateb gan Unigolyn / Response from an Individual

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant / Aelod o'r Senedd,

Dylid datganoli darlledu, y wasg a'r cyfryngau i Gymru gan ddechrau gyda datganoli pwerau rheoleiddio i'n Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol.

Byddai hyn yn cynnwys datganoli rheoliadau ym ymwneud â theledu, radio, y we a'r wasg brintiedig. Mae'r ffaith nad yw'r meysydd hyn wedi'u datganoli wedi arwain at ddiffyg democrataidd difrifol yn ein gwlad; diffyg datblygiadau a gwarchodaeth ym maes y Gymraeg; a diffyg mynediad i'r we sy'n gyfrifol am ddal ein heconomi yn ôl a gyrru pobol o gymunedau gwledig.
Mae'r ffaith nad yw darlledu wedi'i ddatganoli yn golygu bod cyfleon economaidd pwysig iawn wedi'u colli, yn ogystal â chyfleon diwylliannol ac ieithyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfleon:

- i greu mwy sianeli teledu a gorsafoedd radio Cymraeg a Chymreig
- i greu rheoliadau addas ar gyfer radio a theledu lleol
- i sicrhau gwybodaeth gywirach am ein system ddemocrataidd yn ein holl gyfryngau ac i adrodd arnynt
- i graffu ar ein sefydliadau democrataidd
- i greu system mynediad i'r we decach a mwy cynaliadwy
- i greu mwy o ddeunydd Cymraeg ar-lein
- i osod ardoll ar fusnesau mawrion sy'n gweithredu ar y we yng Nghymru gan ei defnyddio i ddatblygu'r Gymraeg ar y we
- i sicrhau lluosogrwydd newyddion yn Gymraeg
- i sicrhau bod pobl Cymru yn derbyn gwybodaeth Gymreig, yn hytrach na gwybodaeth anghywir nad yw'n cynrychioli nac yn adlewyrchu cymunedau Cymru
- i sicrhau amlygrwydd cyfryngol i bethau Cymreig a Chymraeg

Yn wyneb hyn, does dim dwywaith fod datganoli darlledu yn hollbwysig i ddemocratiaeth Cymru, i'r Gymraeg ac i fodolaeth Cymru fel cenedl. Rhaid iddo ddigwydd ar frys.

Yn gywir,

Nel Richards
[redacted]